LEWIS, HUGH (1562 - 1634), clerigwr ac awdur

Enw: Hugh Lewis
Dyddiad geni: 1562
Dyddiad marw: 1634
Priod: Ellen Lewis
Plentyn: William ap Hugh Lewis
Plentyn: Morgan ap Hugh Lewis
Rhiant: Agnes Foxwist
Rhiant: Lewis ap William ap William
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr ac awdur
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth
Awdur: William Gilbert Williams

o deulu yn nhrefdaeog Bodellog ger Caernarfon. Cyfenwid ei hendaid yn ' William Bodellog,' a'i daid yn ' William ap William '; cafodd hwnnw (o'i wraig Margaret Bennett) dri mab, Ieuan, Rhys, a Lewis. Priodod Lewis ag Agnes ferch William Foxwist o'r Prysgol, o deulu o fan foneddigion, a ganed iddynt bedwar mab - Hugh, Griffith, Richard, a John. Cafodd Hugh Lewis ddigon o addysg i'w alluogi i ymaelodi yng Ngholeg All Souls, Rhydychen, ar 10 Awst 1582; rhoddir ei oedran ar y pryd yn 20; graddiodd o Hart Hall yn Ionawr 1586/7. Ymddengys i'w gariad at lenyddiaeth Cymru ddwysáu yn Rhydychen; magodd wybodaeth dda o gerdd dafod ac ystyrid ef yn gryn brydydd. Ni wyddys fawr o'i helynt am rai blynyddoedd, ond yn y blynyddoedd hynny bu wrthi'n cyfieithu traethawd gan Otto Werdmüller o Zürich a oedd wedi ei drosi yn Saesneg (1550) gan Miles Coverdale dan y teitl, *A Spyrytuall and moost Precious Pearle teaching all Men to Loue and Imbrace ye Crosse*. Teitl trosiad Hugh Lewis oedd *Perl mewn Adfyd*; fe'i cyhoeddwyd yn 1595, ac fe'i hadargraffwyd yn 1929 gan Brifysgol Cymru dan olygyddiaeth W. J. Gruffydd. Cynhyrfwyd Hugh Lewis i gyfieithu'r llyfr gan awydd i ddyrchafu moesau ei gyd- Gymry ac i gefnogi ymarfer â darllen Cymraeg. Yn 1598, codwyd ef yn rheithor Llanddeiniolen; ddeng mlynedd wedyn, penodwyd ef yn ganghellor eglwys gadeiriol Bangor; ac yn 1623 daeth yn olynydd i Edmund Prys yn rheithoraeth Ffestiniog a Maentwrog. Yn 1612, yr oedd wedi codi plasty ar lecyn ei hen gartref ym Modellog, ac yno y bu fyw weddill ei oes. Bu farw rywbryd cyn 6 Tachwedd 1634 - ar y dydd hwnnw y sefydlwyd canghellor ym Mangor yn ei le. Enw ei wraig oedd Ellen vch Rhytherch, a chawsant ddau fab, Morgan ap Hugh Lewis a William ap Hugh Lewis, Bu Ellen farw yn Ebrill 1634; yn Llanwnda y claddwyd hi a'i phriod.

Awdur

William Gilbert Williams, (1874 - 1966)

Ffynonellau

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 123

Foster, *Alumni Oxonienses*

W. J. Gruffydd, rhagarweiniad i'r *Perl mewn Adfyd* (1929), 1929

Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon, 1944

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Huw Lewys

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 306131436

Wikidata: Q18535772

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i

gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu